



Delyth Jewell AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,  
a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 4 Tachwedd a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy mhresenoldeb yn sesiwn graffu flynyddol y Pwyllgor ar Gysylltiadau Rhyngwladol ar 23 Mehefin.

### Cwpan y Byd FIFA yn Qatar

Ar 15 Tachwedd, rhoddodd Gweinidog yr Economi ddatganiad llafar yn ailadrodd prif amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd FIFA i ddynion yn Qatar, sef:

- hyrwyddo Cymru;
- cyflwyno ein gwerthoedd;
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru; a
- sicrhau gwaddol cadarnhaol o'n cyfranogiad.

Amcanion a rennir yw'r rhain, gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru a sawl un arall, er mwyn creu dull Tîm Cymru o gyflwyno gweithgarwch ar y cyd.

Mae Cwpan y Byd yn ddigwyddiad byd-eang, felly, yn ogystal â'r gweithgarwch yn y farchnad yn Qatar, rwy'n falch bod amrywiaeth o weithgarwch yn cael ei gynnal, neu ei gyd-gynnal, gan ein swyddfeydd dramor yn ogystal ag ymgyrch farchnata fyd-eang. Mae'r digwyddiadau tramor yn cynnwys digwyddiadau busnes a Chymry ar wasgar, dangosiadau gemau a diplomyddiaeth chwaraeon, digwyddiadau'r Gymraeg a dathliadau diwylliannol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaol, byddwn yn gwerthuso ein holl weithgareddau o ran cefnogi Cwpan y Byd i ddysgu gwersi o'r ymyriadau hyn ar gyfer cyfleoedd diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol.

### Ymgysylltu tramor

Fel y nodwyd yn ystod y cyfarfod craffu, byddaf yn trefnu bod fy swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor o'r ymweliadau sydd wedi'u cynnal i ddangos ein hymgysylltiad â gwledydd a rhanbarthau eraill. Bydd fy swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor yn uniongyrchol, gan ddarparu crynodeb ôl-weithredol bob mis o fis Rhagfyr o'r holl ymweliadau diplomyddol ac ymweliadau gweinidogol dramor.

### Strategaeth ryngwladol ac adrodd am y cynllun gweithredu

Rhoddir adroddiadau misol i'r tri Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio am y Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu. Mae'r rhain yn adroddiadau mewnol sydd hefyd yn llywio dull adrodd mewnol Llywodraeth Cymru – yr Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes (BIRT). Mae BIRT yn olrhain cynnydd yn erbyn canlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n cynnwys gweithgarwch yn y Strategaeth Ryngwladol.

### Cymorth i Allforwyr

O ran cymorth Llywodraeth Cymru i allforwyr, gallaf gadarnhau bod sawl ffynhonnell o gymorth i gwmnïau o Gymru i gefnogi eu huchelgeisiau allforio, yn dibynnu ar y math o gymorth y maent ei angen. Ers mis Tachwedd 2019, mae Busnes Cymru wedi cefnogi 4,385 o fusnesau, gyda 485 wedi derbyn cyngor yn benodol ar eu cynlluniau twf, gan gynnwys allforion a masnach. O'r 485 o fusnesau, mae 167 wedi mynd ymlaen i gael cymorth, gyda chyngor un-i-un arbenigol pwrpasol. Mae 61 o'r cwmnïau hyn yn sectorau'r economi sylfaenol.

Yn ogystal, mae ystod gynhwysfawr o gymorth allforio pwrpasol, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, yn cael ei ddarparu gan dimau Allforio a Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru. Ers mis Ebrill 2019, mae'r timau hyn wedi darparu dros 1,500 o ymyriadau cymorth allforio i fusnesau yng Nghymru. Mae'r math o ymyriad cymorth allforio a ddarperir yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion busnes, ond fel arfer gallai gynnwys:

- cymorth i ddatblygu strategaeth allforio;
- cymorth ar gyfer hyfforddiant sgiliau allforio arbenigol;
- gwaith ymchwil a chanfod marchnadoedd allforio newydd;
- canfod cwsmeriaid newydd posibl mewn marchnadoedd targed;
- cymorth i ymweld â marchnadoedd tramor (gan gynnwys cymryd rhan mewn teithiau masnach, arddangosfeydd a digwyddiadau tramor).

At hynny, mae Clystyrau Allforio (sy'n cwmpasu 6 sector allweddol) wedi'u sefydlu. Ar hyn o bryd, maent yn cynnwys dros 250 o fusnesau yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu hallforio; tra bod gan yr Hyb Allforio ar-lein, ar blatfform Busnes Cymru, tua 300 o ddefnyddwyr cofrestredig ac mae'n rhoi mynediad at ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am fasnach ryngwladol. Hefyd, mae cyfres barhaus o weminarau a ddarperir i fusnesau Cymru ddeall prosesau allforio a chyfleoedd yn y farchnad, gan arwain at y gynhadledd allforio flynyddol – Archwilio Allforio Cymru – er mwyn hybu ymwybyddiaeth ymhellach a'r manteision o ran allforio.

Nid oes gwybodaeth ar gael am nifer yr atgyfeiriadau a wnaed gan Busnes Cymru i dimau Llywodraeth Cymru. Mae Busnes Cymru yn mesur effeithiolrwydd ei gymorth drwy fesur y cynnydd o ran gwerth allforion ym mhob busnes sy'n cael ei gefnogi. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd o £302.6m mewn allforion o ganlyniad i gymorth Busnes Cymru. Mae timau Allforio a Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru yn defnyddio metrigau penodol i werthuso eu rhaglenni cymorth, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar Allforio. Mae llwyddiant yn cael ei fesur dim ond pan fo cymorth ariannol neu raglen wedi'i hariannu wedi cael eu darparu drwy, er enghraifft, taith fasnach neu gefnogi ymweliad â'r farchnad. Yn seiliedig ar hyn, ers mis Ebrill 2019, mae mwy na £132m o gytundebau allforio newydd wedi'u sicrhau gan gwmnïau o Gymru o ganlyniad uniongyrchol i gymorth drwy raglenni allforio a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

### Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Cyhoeddwyd rhestr o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar lefel Gwlad a Rhanbarth yn [Atodiad A i'r Strategaeth Ryngwladol](#) ym mis Ionawr 2020. Ers ei chyhoeddi, rwyf wedi arwyddo dau gytundeb pellach, sef y [Cyd-ddatganiad gydag Iwerddon](#) a lofnodwyd ym mis Mawrth 2021, a [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Rhaglafiaeth Oita](#) a lofnodwyd ym mis Mawrth 2022.

Byddai fy swyddogion yn hapus i ddiweddarau'r Pwyllgor pan fydd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd yn cael eu cytuno, a byddaf yn darparu rhestr wedi'i diweddarau pan fyddaf yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol.

Ni chaiff cytundebau dwyochrog o'r math hwn eu cyhoeddi fel arfer, ac mae hyn yn unol â phrotocol Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, gall fy swyddogion nodi paramedrau unrhyw gytundeb newydd, pa feysydd polisi fydd yn cael eu cynnwys ac ati, pan fyddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw gytundebau newydd.

### Ieithoedd brodorol

Ar 19 Mai, fe wnes i gwrdd â'r Cyfarwyddwr Arsylwi a Safoni Iaith a Phennaeth Staff Sprakradet – Cyngor Iaith Norwy yn Oslo.

Rhoddodd y Cyngor Iaith gyflwyniad oedd yn adlewyrchu ei strwythur sefydliadol, ei waith i hyrwyddo Nynorsk - fersiwn safonol Norwyeg – a hanes yr ymgais i safoni Norwyeg ar draws y wlad yn y 1950au. Yn ôl staff y cyngor, un o'r heriau sylweddol presennol yw atal colli meysydd iaith mewn prifysgolion a chyd-destunau digidol lle gellir defnyddio'r Saesneg yn aml. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar gyflwr yr iaith bob pedair blynedd.

Deddf Iaith Norwy 2022 yw'r cyntaf o'i math sy'n anelu at amddiffyn a hyrwyddo ieithoedd Norwy. Mae'n cydnabod Norwyeg a Sami fel ieithoedd swyddogol, a bod cydraddoldeb o ran yr ieithoedd. Ei nod yw hyrwyddo defnydd iaith ym mhob maes, cryfhau'r iaith Sami, gan gydnabod ieithoedd lleiafrifol fel Kven ac iaith arwyddion. Mae hefyd yn nodi y dylai'r iaith leol lleiafrifol mewn rhanbarth/bwrdeistref ymddangos yn gyntaf, ac mae'n mynd ati i ddiogelu enwau lleoedd. Mae'n cwmpasu Norwyeg, Sami, Kven a Forest Finn.

Roedd llawer iawn o synergedd rhwng ymdrechion yn Norwy a Chymru o ran cynllunio ieithyddol a diogelu enwau lleoedd. Ar ôl y cyfarfod, rhannodd swyddogion gysylltiadau o Is-adran y Gymraeg a Chyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn gallu rhannu gwybodaeth.

Dyma'r stori newyddion y mae'r Cyngor Iaith wedi ei llunio i nodi'r cyfarfod: [Berre engelsk i Storbritannia? Niks! \(sprakradet.no\)](#). Mae rhagor o wybodaeth am y Cyngor ar ei wefan: [Cyngor Iaith Norwy \(sprakradet.no\)](#)

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**